Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

## Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau

## Transforming Education, Transforming Lives

*Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau*
*Transforming Education, Transforming Lives*

www.uwtsd.ac.uk

# ECAD5012

# Ieithoedd, Llafar a Chyfathrebu

# Darlith 1

# Trosolwg o'r gyfres o ddarlithoedd



**Rhan 1**
- Llafar a Gwrando
- Syniadau

**Rhan 2**
- Darllen
- Syniadau

**Rhan 3**
- Ysgrifennu
- Syniadau



# Beth sy'n gwneud gwrandawr da?





Sut ddatblygoch chi sgiliau llafar a gwrando ar PAP1?

# Nod y ddarlith



- Eich atgoffa o'r Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.
- Dyfnhau eich dealltwriaeth o wrando a llafaredd.
- Meddwl am eich sgiliau gwrando a siarad eich hun ac ystyried sut gallant effeithio ar yy dysgwyr.
- Casglu syniadau ar sut i ddatblygu sgiliau llafaredd a gwrando yn y dosbarth.

# Cwricwlwm i Gymru

Mae'r adran ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu o'r Cwricwlwm 2022 wedi ei rannu i bedwar rhan.

## Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

| 1 | 2 | 3 | 4 |
|---|---|---|---|
| Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.  | Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.  | Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu  | Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.  |

## Gwrando a siarad

**Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr yn llwyddiannus yn y cyfnod sylfaen.**

Lle bo'n briodol, mae ymarferwyr yn cynorthwyo dealltwriaeth gynnar dysgwyr o iaith trwy fodelu a dangos ystumiau neu symudiadau sy'n cyfleu ystyr geiriau.

- Mae llawer o ysgolion yn darparu cyfleoedd allgyrsiol buddiol, gan gynnwys yn y gymuned leol, i ddysgwyr ddatblygu'u medrau iaith.
- Mae'r ysgolion cynradd mwyaf effeithiol yn defnyddio cyd-destunau cyfoethog ac amrywiol, fel cyfranogi yn yr Urdd, i addysgu dysgwyr sut i wrando a siarad yn benodol.
- Mae darpariaeth fel arfer yn llai effeithiol pan fydd gwrando a siarad yn cael eu hystyried yn fedrau sy'n cefnogi dysgu ac ysgrifennu, yn hytrach nag fel medrau i'w datblygu ynddynt eu hunain.




tudalen 14

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Darpar athro:** | | **Dosbarth / Grŵp** | |
| **MDPh neu Bwnc:** | | **Dyddiad** *(sylwer y gall y sesiwn hon fod yn un barhaus)***:** | |
| **Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm** (Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, Disgrifiadau dysgu, y cwricwlwm 'blaenorol'...) | | | |
| **Cysylltiadau ystyrlon ar draws y Cwricwlwm** (Cysylltiadau â MDPhau eraill neu'r Fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd) | | | |
| **Targedau Personol** (targedau a'r effaith ganlyniadol ar ddysgu – cyfeiriwch at unrhyw dargedau sydd wedi'u nodi yn y dyddlyfr dysgu neu gyfarfod adfyfyrio wythnosol a disgrifiwch yr effaith a ddymunir ar ddysgu) | | | |
| **Bwriad Dysgu** *'Dylai hyn ganolbwyntio ar y dysgu gan y disgyblion yn ystod y wers, yn hytrach na'r hyn y byddant yn ei wneud, a dylai fod yn fyr, yn gyraeddadwy ac yn fesuradwy.'* (Crichton, H., a Mcdaid, A. 2016 t. *196)* | | | |
| | | | |

# Beth yw beth?

Disgrifiad dysgu (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig)

| | |
|---|---|
| Cam cynnydd 1 | 5 oed |
| Cam cynnydd 2 | 8 oed |
| Cam cynnydd 3 | 11 oed |
| Cam cynnydd 4 | 14 oed |
| Cam cynnydd 5 | 16 oed |

**Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.**

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 |
|---|---|---|
| **Cymraeg/Saesneg** | | |
| Rwy'n gallu gwahaniaethu seiniau, chwarae â seiniau a thrin seiniau o fewn fy amgylchedd yn ogystal ag o fewn geiriau. | Rwy'n gallu gwrando ar, deall a chyfathrebu ystyr cyffredinol yr hyn rwy'n ei glywed. | Rwy'n gallu gwrando ar, deall, ac adalw yn ddiweddarach mewn mwy o fanylder, ystyr cyffredinol yr hyn rwyf wedi'i glywed. |
| Rwy'n dechrau gwahaniaethu ffonemau yn glywedol mewn gwahanol safleoedd. | Rwy'n gallu gwrando ar, deall ac adalw'n ddiweddarach yr hyn rwyf wedi'i glywed. | Rwy'n gallu gwrando ar a deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau, gan grynhoi'r prif bwyntiau. |
| Rwy'n gallu adnabod a dilyn gwybodaeth ddarluniadol a/neu gwybodaeth lafar, a chyfarwyddiadau aml-gam am bynciau cyfarwydd ac arferion. | Rwy'n gallu deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau, gan adnabod y prif bwyntiau. | Rwy'n gallu gwrando ar, adnabod a defnyddio ciwiau i ddeall ystyr cyffredinol a syniadau sydd ymhlyg. |
| | Rwy'n gallu deall ac ymateb[illegible] ystod o gwestiynau a chyfarwyddi[illegible] aml-gam mewn amrywiaeth o gyd-[illegible]au cyfarwydd ac anghyfarwyd[illegible] | |

Yr un sgiliau ar gyfer y ddwy iaith – Cymraeg a Saesneg

…ymlaen at Gamau Cynnydd 4 a 5

Continwwm iaith

# Sut ydw i'n gwybod pa sgiliau sydd angen eu haddysgu i'r disgyblion?






# Datblygu sgiliau llafaredd ar draws y cwricwlwm – fesul cam cynnydd

| LLythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm | | Cam cynnydd 1 | |
|---|---|---|---|
| **Elfennau** | **Agweddau** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** | **Siarad** | • mynegi mwynhad neu ddiddordeb<br>• trafod llun, modelau a gweithrediadau mewn termau syml<br>• ail-adrodd digwyddiad neu brofiad mewn termau syml<br>• siarad yn ddigon clir i gael eu deall gan oedolion a chyfoedion<br>• dynwared bywyd go iawn a phrofiadau dychmygol o fewn gweithgaredd chwarae rôl<br>• dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau trwy hwiangerddi a chaneuon | • mynegi beth yw eu hoff bethau a'u cas bethau<br>• siarad am bethau o'u profiad a rhannu gwybodaeth<br>• defnyddio geiriau, cymalau a brawddegau syml<br>• siarad yn glywadwy<br>• cyfrannu i weithgareddau chwarae rôl gan ddefnyddio iaith berthnasol<br>• dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau, e.e. *dau gi, y gath* |
| | **Gwrando** | • gwrando ac ymateb â sylw a chanolbwyntio cynyddol<br>• gwrando ac ymuno â chaneuon, rhigymau a storïau<br>• ailadrodd stori neu wybodaeth y maent wedi'i glywed mewn termau syml<br>• gofyn cwestiwn priodol am rywbeth sydd wedi'i ddweud | • dangos eu bod wedi gwrando ar eraill, e.e. *wrth dynnu llun*<br>• ymuno wrth adrodd/canu rhigymau, caneuon a storïau, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof, gyda pheth cymorth<br>• gofyn cwestiynau am rywbeth a ddywedwyd |
| | **Cydweithio a thrafod** | • cymryd rhan mewn trafodaeth gyda phlant a/neu oedolion<br>• cymryd rhan gydag eraill mewn gweithgareddau. | • cyfnewid syniadau wrth drafod yn unigol ac mewn grwpiau bach, e.e. *gyda ffrindiau*<br>• cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill, gyda pheth rhyngweithio. |

[Fframwaith Llythrennedd]

# Datblygu sgiliau llafaredd ar draws y cwricwlwm – fesul cam cynnydd

| Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm | | Cam cynnydd 3 | | |
|---|---|---|---|---|
| **Elfennau** | **Agweddau** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** | **Siarad** | • esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio adnoddau cynorthwyol, e.e. *deunyddiau ar sgrin ac ar y we*<br>• trefnu sgwrs er mwyn i gynulleidfaoedd gwahanol ddilyn yr hyn sy'n cael ei ddweud, e.e. *rhoi gwybodaeth gefndir, rhoi crynodeb byr o'r prif bwyntiau*<br>• addasu sgwrs gan ddangos eu bod yn deall y gwahaniaethau rhwng sgwrs anffurfiol ymhlith ffrindiau a sgwrs fwy estynedig â grŵp ehangach, e.e. *defnyddio ti/chi*<br>• archwilio sefyllfaoedd gwahanol drwy chwarae rôl<br>• defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir, e.e. *fy nghalon* | • esbonio gwybodaeth a syniadau, archwilio a defnyddio ffyrdd o argyhoeddi, e.e. *defnydd o eirfa, ystum, cynorthwyon gweledol*<br>• siarad yn eglur, gan ddefnyddio iaith ffurfiol a thaflu'r llais yn effeithiol i gynulleidfa fawr, e.e. *digwyddiad i rieni/gofalwyr, cyflwyniad i ymwelwyr*<br>• archwilio dadleuon a themâu drwy chwarae rôl<br>• treiglo'n gywir fel rheol ar ôl y rhan fwyaf o'r arddodiaid a'r rhagenwau, e.e. *am funud, dy fam* | • mynegi barn a syniadau'n eglur, gan ddefnyddio geirfa arbenigol ac enghreifftiau<br>• siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio mynegiant, tôn a chryfder y llais, i gadw diddordeb y gwrandawyr<br>• archwilio materion heriol neu ddadleuol drwy barhau i gynnal y rôl y maent yn ei chwarae<br>• treiglo'n gywir ar ôl arddodiaid a rhagenwau, gan ddechrau dod yn ymwybodol nad yw pob llythyren yn dilyn y drefn arferol, e.e. *y llinell* |
| | **Gwrando** | • gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau<br>• ar ôl gwrando, ymateb gan fynegi barn am yr hyn y mae'r siaradwr wedi'i ddweud | • gwrando'n astud ar gyflwyniadau gan ddefnyddio technegau i gofio'r prif bwyntiau, e.e. *gwneud nodiadau, crynhoi*<br>• gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a safbwyntiau'r siaradwr | • gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o gasgliadau neu farn y siaradwyr<br>• ymateb i eraill gyda chwestiynau a sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a chamau nesaf |
| | **Cydweithio a thrafod** | • cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan helpu pawb i gymryd rhan<br>• helpu grŵp i ddod i gytundeb, e.e. *ystyried rhesymau neu ganlyniadau, cadw ffocws ar y pwnc/peidio â dilyn ysgyfarnogod wrth drafod pwnc.* | • cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda, e.e. *cyflwyno syniadau perthnasol, crynhoi*<br>• ychwanegu at a datblygu syniadau dysgwyr eraill mewn trafodaethau grŵp, e.e. *drwy holi cwestiynau i archwilio ymhellach, cynnig syniadau ychwanegol.* | • cyfrannu'n bwrpasol i drafodaeth grŵp er mwyn dod i'r canlyniadau y cytunwyd arnynt<br>• codi pwyntiau o drafodaeth grŵp, gan gytuno neu anghytuno a rhoi rhesymau. |

Syniadau ...



# Gwrandewch yn ofalus …






**Gwaith pâr:**

- Mae angen i Bartner A a Phartner B eistedd gefn wrth gefn.
- Rhowch y cyfarwyddiadau di-eiriau i Bartner A.
- Rhowch focs o'r darnau Lego i Bartner B.
- Mae angen i Bartner A roi cyfarwyddiadau i Bartner B ar sut i adeiladu'r "gwrthrych" o Lego.
- Mae'n rhaid i Bartner B **wrando** yn ofalus er mwyn dilyn y cyfarwyddiadau.

# Gwrandewch yn ofalus …

1. Cymerwch ddarn o bapur sgwâr.
2. Plygwch y corneli i'r canol.
3. Trowch y sgwâr drosodd.
4. Plygwch y corneli i'r canol eto.
5. Plygwch y sgwâr yn hanner, ac yn hanner eto.
6. Agorwch e i wneud sgwâr mwy.
7. Rhowch fys a bawd o dan y fflapiau.
8. Dewch â'r fflapiau at ei gilydd.
9. Dyna chi- Ceg y ddraig!



# Syniadau pellach …

Es i'r siop a phrynais …

Mae Seimon yn dweud …



Adeiladu brawddeg / stori gair am air…

Os rydych chi'n gwisgo … gallwch …

Goleuadau traffig – lliw gwahanol i gynrychioli symudiad / gweithred

# Rhowch i mi …

Meddyliwch am frawddeg sy’n cynnwys:

fel



Meddyliwch am frawddeg sy’n cynnwys:

yn wyllt gacwn



Meddyliwch am frawddeg sy’n cynnwys:

coch

Meddyliwch am frawddeg sy’n cynnwys:

gwella

# Pa batrymau iaith gellir drilio?

Ydy hi'n ddydd Gwener heddiw?

Pa ddiwrnod ydy hi heddiw?

Pa ddiwrnod oedd hi ddoe?

Pa ddiwrnod fydd hi yfory?




Beth ydy'r dyddiad heddiw?

Beth fydd y dyddiad mewn dau ddiwrnod?

Beth oedd y dyddiad ddoe?

Pa fis yw hi nawr?

# Beth sy'n gyffredin?






# Beth sy'n wahanol?

# Pa un sy'n eithriad? Pam?











# Tasg 1



# Defnyddio lluniau i ddatblygu iaith.

Pobble 356




- Pwy yw'r dyn yn y parc?
- Beth sydd wedi digwydd ddeng munud ynghynt?
- Pam bod y dyn y parc?
- Pam bod e'n dal blodyn?
- Beth sy'n mynd i ddigwydd yn y ddeng munud nesaf?
- A fydd rhywun yn gweld y dyn ar y fainc?
- Pa liw ydy'r Gaeaf?
- Pa liw ydy'r Haf?
- Oes mwy o hapusrwydd neu dristwch yn y Byd?

# Defnyddio ffilm yn sbardun llafar …

[Manonmoon - THE LITERACY SHED]

Syniadau llafar?






# Llais 21

Llais 21



Cartwn Cysyniad

# Cartwnau Cysyniad –Herwich y cymeriadau

Mae hi'n well cadw eich teimladau tu fewn ynlle rhannu gyda unrhywun. Bod yn hapus ar y tu allan yw'r peth pwysicaf.

Dydw i ddim yn gallu rheoli fy nhymer. Rydw i'n mynd yn grac yn hawdd felly peidiwch gwylltio fi!



Does dim ots os ydw i'n teimlo'n isel o hyd. Mae pawb yn poeni

Cartwn Cysyniad - Concept Cartoon

Gwybyddol

# Cartwnau Cysyniad –Heriwch y cymeriadau




Cartwn Cysyniad - Concept Cartoon

Gwybyddol

# Tasg 2



# MEWN MUNUD

Pwrpas:

I archwilio a chyflwyno syniadau gan godi hyder.

Corfforol

Gwybyddol

Emosiynol & Chymdeithasol

Mewn Munud -

Just a Minute

Corfforol, Gwybyddol, Emosyniol & Chymdeithasol

## Canllawiau

Dyma weithgaredd sydd posib ei wneud fel par neu grwp er mwyn archwilio a chyflwyno syniadau. Mae'r dasg yn codi hyder y disgyblion wrth siarad mewn grwp. Athro i amlinellu'r dasg. Disgyblion i nodi syniadau ar bapur gludiog bach. Mae gan ddisgyblion funud i archwilio eu syniadau neu i gyflwyno eu syniadau. Mae'r athro yn amseru munud er mwyn annog y disgyblion i siarad am funud cyfan. Dylid annog y disgyblion i drafod am funud cyfan er mwyn adeiladu hyder a gwytnwch.

Dylid annog y defnydd o ddechrau brawddegau i strwythuro'r dasg.

Enghreifftiau:

Athro: A ddylai bobl prynu nwyddau masnach deg?

Mae gyda chi 30 eiliad i nodi ambell bwynt siarad ar eich nodyn gludiog.

Athro wedyn i ddewis un disgybl i siarad yn gyntaf.

Wedi iddynt siarad am funud, dylid canmol, cynnig sylwadau i wella a.y.b. cyn symud ymlaen at ddisgybl arall.



**Mewn Munud -**

**Just a Minute**

Corfforol, Gwybyddol, Emosyniol & Chymdeithasol

# ENGHREIFFTIAU

Cyfnod Sylfaen: Mae modd lleihau yr amser i'r' dasg i 10/20 eiliad. Sicrhewch bod amserydd gweledol i'r disgyblion.

Enghraifft: "Sut mae gofalu am blanhigyn/ anifail?" "Beth ddysgoch chi?"

CA2/3: Gellid cynyddu'r amser yn ol gallu'r disgyblion.

Enghraifft: "Sut mae cyfryngau cymdeithasol yn effeithio delwedd pobl ifanc?". Hefyd byddai modd ei ddefnyddio fel ffordd o adolygu pwnc.



**Mewn Munud -**

**Just a Minute**

Corfforol, Gwybyddol, Emosyniol & Chymdeithasol

# Tasg 3



# Cwestiynu effeithiol …



Mae dau brif fath o gwestiwn …

**cwestiwn caeëdig**

dim ond ateb cadarnhaol neu negyddol sy'n bosib

**cwestiwn agored**

amrywiaeth o atebion posib

# Cwestiynau caeëdig

Er mai dim ond ateb cadarnhaol neu negyddol sy'n bosib i gwestiwn caeëdig, mae sawl ffordd o ateb yn gadarnhaol neu'n negyddol yn Gymraeg ….

Oes
Nac oes

Ydy
Nac ydy

Do
Naddo

Oedd
Nac oedd

Ie
Nage

Cei
Na chei

Ydw
Nac ydw

# Cwestiwn caeėdig neu gwestiwn agored?

| | | |
|---|---|---|
| Beth ydy dy enw? | Beth wyt ti'n meddwl sy'n mynd i ddigwydd nesaf? | Faint o bobl sydd yn y llun? |
| Wyt ti'n hoffi hedfan mewn awyren? | Ble rwyt ti'n byw? | Oes brawd neu chwaer gyda thi? |
| Ydy hedfan mewn awyren yn beth hunanol i wneud? Pam? | Faint o ffrindiau sydd angen ar berson? | Ble yw'r lle harddaf yn y byd? |

# Tasg 4



# Diemwnt 9

Gwaith grwp

Adrodd yn ôl

Mwyaf pwysig

Lleiaf pwysig

Ystyriwch:

- Beth yw pwrpas tasg fel hyn?
- Beth yw effaith tasg fel hyn?

# Llyfrau a gyfeiriwyd atynt yn y ddarlith
















